

Cyngor Cymuned Pentir
Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Fehefin 2018
yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.

Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 10fed o Fai 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 30ain o Fai

- Adroddiad ariannol
- Ceisiadau Ad 137
- Cyfrifon 2017-18
- Archwilwyr mewnnol / Allannol

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C18/0438/25/LL Estyniad ochr unllawr 1, Bro Infryn, Glasinfryn, Bangor, LL574UR
- C18/0522/25/LL Dymchwel ystafell haul bresennol a chodi estyniad unllawr yn ei le 5, Ysgoldy Terrace, Capel Y Graig, Bangor, Gwynedd, LL57 2SJ

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Prydles Canolfan Penrhos
 - Gamlins
 - Broses cyfethol i ward Glasinfryn /Pentir
- Adroddiadau
 - Diweddariad ar goed fynwent yr eglwys

Materion y Cynghorwyr

Cyng Dafydd Jones-Morris

Cyng Lowri James

Cyng James Griffiths

Gwasanaeth Strôc yng ngogledd Cymru.

GDPR

Oes posib gofyn iddynt ail osod arwydd Llwybr Cyhoeddus sydd dybiwn wedi cael dynnu yn anghyfreithlon er mwyn ceisio gwahardd defnyddio Llwybr Tyn Ffridd o Lon Bryn Dwr ar draws Lon Bryn yn Waen Wen

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor Llawn gynhaliwyd Nos Iau 10^{fed} o Fai 2018 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. D. W. Jones R. Jones. J. Griffiths, L. James, J Pierce, B Jones, C. E. Hughes, M. Baines, a T Anwyl-Williams

E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, a H Griffiths

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen
Gan fod Prydles Canolfan Penrhosgarnedd eto ar yr Agenda, nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd y Ganolfan a fod y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan
Nodwyd fod Cyng T A Williams yn cynrychioli y Cyngor Pentir ar Bwyllgor Rheoli y Ganolfan
Nodwyd fod Cyng L A James yn cynrychioli y Cyngor ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Faenol

Derbyn cofnodion 12fed o Ebrill 2018

Cynnigwyd gan Cyng J Pierce eu bod yn gywir ag eilwyd y cynnjig gan y Cyng M Baines

Materion yn codi Dim

Sedd Wag Glasinfryn – Trafodwyd y ffordd ymlaen i hysbysebu ar y Wefan ag yn lleol gan nodi fod y Cyngor yn gweithredu ac yn cael ei weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau i sicrhau ein bod yn dilyn y drefn briodol

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 25-04 - 18

Dosbarthwyd adroddiad o IBC Ebrill oedd heb ei chadarnhau ei fod yn gofnod cywir.

Yr adroddiad yn dangos £11,843.40

Dosbarthwyd Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2017-18 oedd yn dangos gorwariant o £3561.43 a bod £14,030.27 yn y cyfrif wrth iddo gael ei gau 31/03/2018 oedd yn cynnwys £8666.28 o ad-daliad TAW

Bu ymholiad pam nad oedd y swm TAW yn ymddangos ar y daenlen Incwm a Gwariant – Credai y Clerc mae oherwydd nad oedd yn Incwm ond yn ad-daliad oedd y rheswm.

Clerc i holi'r cyfrifwyr am yr esboniad cywir

Ceisiadau Nawdd Cais Clwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd – Argymell i'r Cyngor Llawn talu £1000.00 eto iddynt ar gyfer yr ail ran o'i prosiect o adnewyddu eu cae

Argymell y Taliadau D W Lewis Torri gwair Mawrth £280.00 Llyw Cymru Rhent ¼ Cyntaf
£1605.40 Cyflog Mis 1 Ebrill £363.10 HMRC Mis 1 £90-60 Dwr Cymru Dwr y Swyddfa £54.24

Newid graddfeydd cyflog y Clerc

'Roedd cytundeb tal Cyflog Cenedlaethol Clercod wedi newid - Cytunwyd cyd-fynd a a thalu'r graddfeydd newydd. **Clerc i gysylltu a'r cyfrifwyr iddynt fedru addasu'r cyflog i'r swm cywir**

Cynnig

Cyng R T Jones yn cynnig fod yr IBC yn edrych ar delerau'r Clerc

Eilwyd y cynnig gan y Cyng B Jones

Ceisiadau Cynllunio

C18/0295/25/LL Codi estyniad deulawr cefn Y Bwthyn Ty'n Lon Treborth LL57 2NJ

Dim gwrthwynebiad

C18/0312/25/LL Codi anecs un llofft un llawr 2, Maes Mawr Penrhosgarnedd LL57 2LR

Gwrthwynebu ar sail dwysedd adeiladau mewn stád dai

Derbyn addasiad o fewn y Rheolau Sylfaennol

Cytunwyd i dderbyn y newid yn y Rheolau Sefydlog fel fod Swyddogion Cadeiryddion ag Is Gadeiryddion yn parhau yn eu swyddi am ddwy flynedd

Datblygiad Prydles canolfan Penrhos

Y Clerc wedi derbyn telerau Gamlin am weithredu ar ein rhan.

Argymhell i'r Cyngor Llawn ein bod yn derbyn y telerau a dychwelwyd y ffurflen wedi i'r Cadeirydd ei arwyddo.

Bydd Gamlins felly yn darparu'r ochr gyfreithiol a drafft prydles ar ein rhan.

Datblygu Ysgol y Faenol / Canolfan Gymunedol

Yn hytrach na ruthro drwy y mater holl bwysig yma cytunwyd i ohirio yr eitem yn ei gyfanrwydd i noson arall pan na fyddai ond yr eitem yma ar yr Agenda

Cytunwyd i gyfarfod ymhen wythnos sef Nos Iau 17eg o Fai am 6.30 y.h.

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
- Adroddiad

Hysbysfyrddau Clerc wedi derbyn caniatad o Ysb Gwynedd ond angen cytuno ar leoliad

Mapiau Cost argraffu ar gyfer Treborth a Ysb Gwynedd Derbyn talu cost argraffu £80.00 am y ddau sef £40.00 yr un

Fynwent Wal y fynwent yn dal heb ei adnewyddu ond y Clerc mewn cyswllt a'r ficer

Torri gwair ychwanegol Nid oedd y 4ydd toriad dalwyd amdani llynedd wedi ei wneud yn Mis Mawrth oherwydd y tywydd ond bellach wedi ei wneud yn ystod Ebrill

Nosweithiau cyfarfodydd

- Cyngor llawn Cadw i ail Nos Iau y mis
- Is Bwyllgor Cyllid Cadw i Nos Fercher olaf y mis
- Is Bwyllgor asedau IBA i ben y dyddiadau yn y cyfarfod cyntaf Cytuno fod angen cyfarfod yn amlach Cyfarfod Cyntaf Nos Iau 28ain o Fehefin

Clerc wedyn i gynnwys yr holl ddyddiadau yn Llawlyfr aelodau 2018-19

Materion y Cynghorwyr

Lowri James Llywodraeth Cymru a'r Grid Cenedlaethol yn cyd-weithio i ymchwilio i'r potensial cael trydedd pont dros y Fenai fyddai yn cario ceblau trydan yn ogystal a thraffig.

Cytuno i'r Clerc wneud ymholiadau gyda'r Aelodau Seneddol San Steffan a Chaerdydd

James Griffiths Gyda golwg ar faterion gan y cynghorwyr! Hoffwn gael gwybod gan Gwynedd, yng ngoleuni'r ffaith mai dim ond unwaith bob tair wythnos y mae ein biniau gwastraff ty yn cael eu gwagio a chan nad wyf wedi clywed am ddiswyddo y criwiau fyddai'n gwagio yn wythnosol, beth yw gwaith y dynion hyn bellach?

'Roedd y Clerc eisioes wedi gwneud ymholiad a chael ar ddeallt eu bod eto yn Ail edrych ar y telerau gwaith y roll adran

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor arbennig gynhaliwyd Nos Iau 17^{eg} o Fai 2018 yn Parc Menai am 6.30 y.h.

Presennol:

Y Cyng. D. W. Jones R. Jones. D Jones-Morris. L. James, J Pierce, B Jones, C. E. Hughes, M. Baines, a T Anwyl-Williams

E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, J. Griffiths, a H Griffiths

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen
Gan fod Prydles Canolfan Penrhosgarnedd eto ar yr Agenda, nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd y Ganolfan a fod y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan
Nodwyd fod Cyng T A Williams yn cynrychioli y Cyngor Pentir ar Bwyllgor Rheoli y Ganolfan
Nodwyd fod Cyng L A James yn cynrychioli y Cyngor ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Faenol

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Yn ei sylwadau agoriadol amlinnellodd y Cadeirydd gefndir y prosiect a hefyd bwysicwyd fod yr holl sesiwn yn **hollol gyfrinachol ag er diben Cyngor Cymuned Pentir yn unig.**

Gan mae hi yw Cadeirydd yr Is Bwyllgor Cyllid y Cyng Lowri James ymgwymerodd a chyflwyno y sesiwn ar ffurf Powerpoint oedd hi wedi ei ddarparu ei hun.

Er mae 4 Opsiwn oedd Cyngor Gwynedd wedi eu roi gerbron mi oedd Cyng James yn ei chyflwyniad wedi ychwanegu pumed opsiwn sef i wneud dim arwahan i arwyddo'r brydles bresennol sydd ar gynnig.

'Roedd y cyflwyniad eto yn amlinnellu y cefndir ag wedyn yn mynd drwy y 5 opsiwn gan geisio pwysu a mesur eu cryfderau eu gwendidau a'u costau.

Ar ddiwedd y cyflwyniad cafodd pob aelod y cyfle i fynegu eu barn bersonnol am y prosiect a'r opsiynnau.

Aethpwyd ati i geisio didoli rhai o'r opsiynnau fel a ganlyn

Opsiwn 1	Ei Ddi-ystyru
Opsiwn 2	Ei gadw i'w ystyried
Opsiwn 3	Ei Ddi-ystyru
Opsiwn 4	Ei gadw i'w ystyried
Opsiwn 5	Ei Ddi-ystyru

Bu cryn drafodaeth wedyn ynglyn a'r gwahaniaeth ym mhrisau y ddau Opsiwn 2 a 4 ag os oedd posib negydu ar yr agwedd yma o'r cynllun.

Er mwyn cadw 'hunanoldeb' y Ganolfan arwahan i'r Ysgol a chael gofod tebyg o ran maint 'roedd yn amlwg fod Opsiwn 4 cael ei ffafrio. Cynnigwyd ag eilwyd fod y Cyngor yn ffafrio Opsiwn 4 gan y Cyng D Jones-Morris a'r Cyng J Pierce.

Hefo 3 wedi datgan buddiant - wrth ddangos eu cefnogaeth i'r cynnig 'roedd 6 o blaid y cynnig a 1 yn atal.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad bwysig i'r drafodaeth a Diolch arbennig i'r Cyng James am ei gwaith o ddarparu y cyflwyniad

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Cyngor Gwynedd i ddatgan y penderfyniad a chychwyn trafodaethau